Papur Briffio 1

Gwasanaethau Eiriolaeth a Chynrychiolaeth Annibynnol i Blant

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

"Mae eiriolaeth yn ymwneud â siarad dros blant a phobl ifanc. Mae eiriolaeth yn ymwneud â galluogi plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu hawliau yn cael eu parchu a bod eu barn a'u dymuniadau yn cael eu clywed bob amser. Mae eiriolaeth yn ymwneud â chyflwyno barn, dymuniadau ac anghenion plant a phobl ifanc i lunwyr penderfyniadau, a'u helpu i fynd drwy'r system."

Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant (2003)
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Save the Children
Achub y Plant

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

NCH CYMRU

NSPCC
Dim mwy o greulondeb i blant. DIM.
Cruelty to children must stop. FULL STOP.

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Gwasanaethau Eiriolaeth a Chynrychiolaeth Annibynnol i Blant

Beth sydd wedi'i gyflawni ers 2003?

Yn 2002 sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn cynnwys comisiynwyr a darparwyr i roi cyngor ar ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yng Nghymru. Roedd hynny'n fuan wedi i Gymdeithas y Plant dynnu allan o Gymru yn annisgwyl ac ar ôl sefydlu Tros Gynnal gyda chymorth Plant yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ailsefydlu'r ddarpariaeth ar gyfer hawliau plant ac eiriolaeth a fyddai wedi'u colli.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r Safonau Cenedlaethol yn 2003 fel canllaw i gomisiynwyr a darparwyr. Yn 2004 estynnwyd yr hawl statudol a roddwyd yn 2002 i blant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen i gael gwasanaeth eiriolaeth, os oeddent yn dymuno gwneud cwyn yn erbyn gwasanaethau cymdeithasol, fel ei bod hefyd yn cynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal.

Erbyn canol 2004 roedd holl siroedd Cymru'n cynnig gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i grwpiau cyfyngedig o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Er hynny, nododd y Comisiynydd Plant yn 'Datgan Pryderon' (2003) a Pithouse et al (2005), Prifysgol Caerdydd, yn 'Astudiaeth o Wasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru', fod y gwasanaethau hynny'n amrywio o ran eu hygyrchedd a'u hansawdd – gan gydnabod bod y sefyllfa hon yn cael ei chreu'n aml oherwydd comisiynu ac adnoddau annigonol. Un mater pwysig oedd y broblem sy'n codi os nad yw gwasanaeth eiriolaeth yn annibynnol, fel y dylai fod, ar yr awdurdod sy'n ei gomisiynu, yn ogystal â diffyg darpariaeth gwasanaethau eiriolaeth i blant sy'n cael mynediad i'r rhan fwyaf o wasanaethau iechyd ac addysg. Penconglfaen unrhyw wasanaeth eiriolaeth yw ei fod ar gael yn rhwydd pan fydd ei angen a, hyd yn ddiweddar, hynny oedd yr egwyddor a oedd wedi'i sefydlu yng Nghymru.

Er mwyn datrys y problemau hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llunio canllawiau ar gyfer comisiynu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc drwy gydweithio â'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus. Byddai'r Model Gwasanaeth Newydd a gynigiwyd yn darparu amrediad cynhwysfawr o wasanaethau eiriolaeth a fyddai ar gael i blant a phobl ifanc sy'n cael mynediad i wasanaethau cyhoeddus, ac a fyddai wedi'i gomisiynu ar sail ranbarthol gan Bartneriaethau Fframwaith a'i ddarparu mewn dull Siop Un Stop. Ers 2005 mae Plant yng Nghymru wedi hwyluso cyfarfodydd rheolaidd i ddarparwyr gwasanaethau eiriolaeth ac i weithwyr mewn gwasanaethau eiriolaeth.

Beth yw ein pryderon presennol?

Bu'r Comisiynydd Plant yn feirniadol iawn, yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2004-2005 a 2005-2006, o'r diffyg cynnydd ar ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth ers cyhoeddi ei adroddiad 'Datgan Pryderon'. Yn ogystal â hynny, nododd fod natur dymor byr y contractau, a'r newid rhwng darparwyr a geir o ganlyniad, yn golygu'n aml fod plant a phobl ifanc yn profi newid annymunol ar adeg pan fydd arnynt angen sefydlogrwydd.

Er bod Canllawiau Comisiynu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dda eu bwriad, ni welwyd eto a fyddant yn fodd i greu rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau eiriolaeth cynhwysfawr a gwirioneddol annibynnol sydd wedi'u hariannu'n ddigonol i amddiffyn a chefnogi plant sy'n agored i niwed. Gwasanaethau eiriolaeth yw'r unig wasanaethau a gomisiynir gan Awdurdodau Lleol lle y mae darparwyr yn dal i gael

eu newid yn rheolaidd, fel bod plant yn profi ansefydlogrwydd pan fyddant yn arbennig o agored i niwed.

Yn olaf, mae'n bwysig nodi mai nod craidd eiriolaeth yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn penderfyniadau yn hytrach na'i bod yn ddim ond elfen ategol yn y broses cwynion, fel y mae'n cael ei phortreadu fwyfwy ar hyn o bryd.

Argymhellion

Rydym yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer model gwasanaeth cynhwysfawr ac integredig ar gyfer eiriolaeth, a byddwn yn barnu eto ynghylch effeithiolrwydd y dull comisiynu rhanbarthol. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu'r weledigaeth, rydym yn argymell y canlynol:

- Adnoddau digonol. Mae'r ymrwymiad ariannol presennol i wasanaethau eiriolaeth plant yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru a, gan fod eiriolaeth ar gael i fwy o blant a phobl ifanc cymwys, mae angen fformiwla ariannu, a fyddai'n sicrhau bod adnoddau'n cael eu rhannu'n gyfartal.
- Mae 'Datgan Pryderon' ac Adroddiad yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed 'Ein Cadw'n Ddiogel' (2006) a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi argymell sefydlu Uned Eiriolaeth ganolog i hyrwyddo a monitro arferion da a datblygu'r sector eiriolaeth. Rydym yn credu bod y dull comisiynu rhanbarthol yn fwy tebygol o lwyddo os caiff ei ategu gan 'uned' ganolog.
- Dylid datblygu safonau galwedigaethol a hyfforddiant achrededig ymhellach i sicrhau cysondeb ac ymarfer o ansawdd da.
- Dylid ystyried a ddylai eiriolwyr fel grŵp proffesiynol gael eu cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru.
- Mae angen cydnabyddiaeth ehangach i hawliau plant a rhaid cael newid mewn arferion os yw eiriolaeth i gael ei derbyn yn y tymor hir. Dylid ystyried datblygu elfennau cyffredin yn hyfforddiant athrawon, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol, sy'n amlygu pwysigrwydd hawliau plant a chyfranogiad ganddynt.
- Mae angen monitro'r mecanweithiau ar gyfer plant a phobl ifanc ar wahân ac at ei gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hannog i wneud sylwadau pan fo angen.

MANYLION CYSWLLT

BARNARDO'S CYMRU
ANDY JAMES, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, POLISI
Ffôn: 01792 463357
E-bost: andy.james@barnardos.org.uk

NCH CYMRU
JAYNE ISAAC, SWYDDOG POLISI CYHOEDDUS
Ffôn: 029 20 222127
E-bost: jayne.isaac@nch.org.uk

NSPCC
SIMON JONES, CYNGHORYDD POLISI CYMRU
Ffôn: 029 20 267000
E-bost: simonjones@nspcc.org.uk

ACHUB Y PLANT
ANNE CROWLEY, UWCH GYNGHORYDD POLISI
Ffôn: 029 20 396838
E-bost: a.crowley@savethechildren.org.uk

TROS GYNNAL
JACKIE MURPHY, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
Ffôn: 029 20 396974
E-bost: jackie.murphy@trosgynnal.org.uk

Cefnogwyd y papur briffio hwn gan Plant yng Nghymru